

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 8 Mawrth 2023

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: Rhaglen brechiadau atgyfnerthu COVID-19 y gwanwyn 2023

Dyddiad Dod i ben / Adolygu: Ddim yn berthnasol

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Arweinwyr Brechu rhag COVID-19, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Cynllunio, Uned Gyflawni GIG Cymru
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru
Ymarferwyr cyffredinol
Fferyllwyr cymunedol

Anfonir gan: Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

Enw(au) Cyswilt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:

Yr Is-adran Frechu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: LIC.TimYRhaglenFrechu@llyw.cymru

Annwyl Gyfaill

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y cyngor diweddaraf gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, sy'n cynghori cynnig dos ychwanegol o frechiad atgyfnerthu COVID-19 y gwanwyn i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Prif nod y rhaglen frechu rhag COVID-19 o hyd yw sicrhau nad yw pobl yn datblygu salwch difrifol (gan arwain at fynd i'r ysbyty a marwolaethau) o ganlyniad i COVID-19. Mae pobl hŷn, pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn a phobl sy'n imiwnoataliedig yn parhau i wynebu'r risg uchaf o ddatblygu salwch difrifol yn sgil COVID-19.

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi argymhell, fel strategaeth ragofalus, y dylai'r bobl ganlynol gael dos o'r brechiad atgyfnerthu yn y gwanwyn:

- oedolion 75 oed a throsodd;
- pobl sy'n byw mewn cartref gofal i oedolion hŷn, ac
- unigolion 5 oed a throsodd sy'n imiwnoataliedig (fel y'i diffinnir yn nhabl 3 neu 4 yn y Llyfr Gwyrdd)

Bwriedir y llythyr hwn ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am gomisiynu a chyflwyno'r rhaglen frechu rhag COVID-19 yng Nghymru. Rydym yn eich annog i rannu'r canllawiau hyn â phawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen yn eich ardal.

Uchelgeisiau'r rhaglen

Yn unol â'n disgwyliadau ar gyfer y rhaglen frechu rhag COVID-19 ers y cychwyn cyntaf, disgwylir i fyrddau iechyd barhau i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael eu brechu, gwneud yn siŵr na chaiff brechlynnau eu gwastraffu i'r graddau posibl, canolbwyntio o hyd ar gyrraedd y bobl fwyaf agored i niwed, a deall annhegwch a mynd i'r afael ag ef drwy sicrhau bod pawb sy'n gymwys i gael ei frechu yn gallu gwneud hynny. O gofio hyn, rydym yn disgwyl:

1. Y bydd pawb sy'n gymwys i gael brechiad atgyfnerthu'r gwanwyn yn cael eu gwahodd i gael eu brechu;
2. Y bydd 75% o'r bobl gymwys hynny yn cael eu brechu, ac o fewn hynny;
3. Y bydd lefelau'r bobl sy'n cael eu brechu yn cael eu cynnal neu eu gwella ar gyfer pobl dros 75 oed a phobl sy'n byw mewn cartref gofal i oedolion hŷn (o'u cymharu â'r lefelau a welwyd yn ystod rhaglen brechiadau atgyfnerthu'r gwanwyn 2022);
4. Y bydd lefelau'r bobl sy'n cael eu brechu yn well ar gyfer pobl imiwnoataliedig, i sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed o 75% ar gyfer y grŵp hwn yn benodol;

5. Y bydd byrddau iechyd yn lleihau'r bwlch yn lefelau'r bobl sy'n cael eu brechu rhwng yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (o'u cymharu â'r lefelau a welwyd yn ystod rhaglen brechiadau atgyfnerthu'r gwanwyn 2022).

Dyddiad dechrau a gorffen y rhaglen

Bydd rhaglen brechiadau atgyfnerthu COVID-19 y gwanwyn yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2023, gyda rhywfaint o hyblygrwydd iddi redeg ym mis Gorffennaf, ar gyfer y bobl hynny sy'n gymwys i gael brechiad atgyfnerthu ond nad oedd modd iddynt ei gael yn ystod prif gyfnod y rhaglen oherwydd salwch.

Ar sail y cyngor a gafwyd gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, ym mis Chwefror cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwedd y cynnig cyffredinol o gwrs sylfaenol o frechlyn COVID-19 i bawb dros 5 oed. Bydd y cynnig hwn yn dod i ben ar yr un pryd â diwedd rhaglen brechiadau atgyfnerthu'r gwanwyn, sef ar 30 Mehefin 2023. Mae'r cynnig cyffredinol o frechiad atgyfnerthu, sydd wedi bod ar gael yng Nghymru ers 2021, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023.

Cyflenwad y brechlyn

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi gwneud yr argymhellion canlynol ar y brechlynnau i bob carfan ar gyfer rhaglen y gwanwyn.

Pob oedolyn 75 oed a throsodd:

- Mae brechlyn deufalent Pfizer-BioNTech mRNA (Comirnaty) wedi ei awdurdodi ar gyfer oedolion.
- Mae brechlyn deufalent Moderna mRNA (Spikevax) wedi ei awdurdodi ar gyfer oedolion.
- Mae brechlyn atgyfnerthu COVID-19 Sanofi Pasteur (VidPrevtyn Beta) wedi ei awdurdodi ar gyfer oedolion (gyda hyblygrwydd gweithredol i'w ddefnyddio ar gyfer pobl dros 65 oed sy'n byw mewn cartref gofal i oedolion hŷn).

Pobl 5 oed a throsodd sy'n imiwnoataliedig:

- Rhwng 5 ac 11 oed - fformiwleiddiad pediatrig o frechlyn unfalent neu deufalent Pfizer-BioNTech mRNA (Comirnaty). Dos: 10 microgram.
- Rhwng 12 a 17 oed - mae brechlyn deufalent Pfizer-BioNTech mRNA (Comirnaty) wedi ei awdurdodi ar gyfer pobl 12 oed a throsodd. Dos: 30 microgram.
- Rhwng 18 a 74 oed - mae brechlyn deufalent Pfizer-BioNTech mRNA (Comirnaty) wedi ei awdurdodi ar gyfer oedolion. Dos: 30 microgram; ac mae brechlyn deufalent Moderna mRNA (Spikevax) wedi ei awdurdodi ar gyfer oedolion. Dos: 50 microgram.

Mae'r brechlynnau deufalent Pfizer a Moderna sy'n cael eu defnyddio yn cynnwys yr amrywolion COVID-19 diweddaraf, sef BA.4-5, yn ogystal â'r straen gwreiddiol. Maent yn frechlynnau newydd i'r rhaglen felly. Fodd bynnag, maent yn defnyddio'r un

dechnoleg â fersiynau blaenorol o'r brechlynnau hyn ac felly maent yn gyfarwydd i'r rhaglen.

Mae brechlyn Sanofi yn newydd i'r rhaglen. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cynghori bod modd defnyddio brechlyn COVID-19 Sanofi Pasteur (VidPrevtyn Beta), a gafodd ei gymeradwyo gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn Rhagfyr 2022, ochr yn ochr â'r ddau frechlyn mRNA. Mewn treialon clinigol, roedd lefelau'r gwrthgyrff a gynhyrchwyd gan frechlyn COVID-19 Sanofi Pasteur (VidPrevtyn Beta) yn erbyn gwahanol is-amrywolion Omicron yn gymaradwy â'r lefelau a gynhyrchwyd gan frechlynnau COVID-19 mRNA.

I bobl sydd â hanes o alergeddau, fel y'i disgrifir yn y Llyfr Gwyrdd, mae'r cyfnod arsylwi o 15 munud yn parhau ar waith. I bobl nad oes hanes o alergeddau ganddynt, fel y'i disgrifir yn y Llyfr Gwyrdd, mae'r amseroedd arsylwi fel a ganlyn:

Dylid parhau i gynnal cyfnod arsylwi o 15 munud ar gyfer y bobl yn y categorïau canlynol:

- Unigolion sydd wedi'u cofrestru fel pobl sydd ag anabledd dysgu sy'n cael brand o frechlyn COVID-19 am y tro cyntaf
- Unigolion nad oes galluedd ganddynt sy'n cael brand o frechlyn COVID-19 am y tro cyntaf.

Fel arfer, bydd y bennod ddiwygiedig yn y Llyfr Gwyrdd yn rhoi rhagor o gyngor clinigol ar ddefnyddio'r brechlyn.

Cynghorir y dylai'r bobl hynny nad ydynt yn gallu goddef brechlynnau mRNA neu sydd ag alergedd i frechlynnau mRNA ac nad oes modd iddynt gael brechlyn COVID-19 Sanofi Pasteur (VidPrevtyn Beta), gael brechlyn unfalent math gwyllt sy'n cynnwys cyffur ategol Novavax Matrix-M (Nuvaxovid).

Cyllid

Mae Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd eisoes wedi cael gwybod am eu dyraniadau cyllidebol ar gyfer brechiadau COVID-19 yn ystod 2023-24 drwy lythyr gan Sioned Rees, Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd.

Cynllunio tymor hwy

Mae'r Cyd-bwyllgor eisoes wedi cynghori y dylid cynnal rhaglen brechiadau atgyfnerthu COVID-19 yr hydref yn 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y cyngor hwn, ac rydym yn aros i gael rhagor o fanylion gan y Cyd-bwyllgor ar bwy fydd yn gymwys a'r math o frechlyn. Rydym yn ymwybodol bod byrddau iechyd eisoes yn cynllunio ar gyfer y rhaglen hon, a dylent wneud hynny gan gymryd y bydd y meini prawf cymhwystra yn debyg i feini prawf rhaglen 2023, sy'n prysur ddod i ben.

Rydym yn disgwyl cynnal rhaglen COVID-19 a fflw integredig eto yn ystod 2023-24, fel y gwnaethom yn ystod 2022-23 o dan Raglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol. Mae [WHC 2022/31](#) eisoes wedi cael ei gyhoeddi gan drafod elfen fflw'r rhaglen, ar sail [cyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu](#). Caiff rhagor o

wybodaeth a manylion eu rhannu pan fyddant ar gael, gan gynnwys y penderfyniad ynghylch pa un a ddylid cynnwys pobl 50-64 oed sy'n iach yn y rhaglen frechu rhag y fflw.

Bydd newidiadau sylweddol i raglenni brechu eraill hefyd yn ystod 2023, gan gynnwys rhaglenni Feirws Papiloma Dynol (HPV) a'r Eryr yn benodol. Hoffwn ddiolch i'ch timau am eu cyfraniad a'u gwaith yn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn; rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n gilydd er mwyn rhoi'r newidiadau arfaethedig ar waith yn effeithiol yn ddiweddarach eleni.

O edrych tua'r dyfodol, hoffwn gyfeirio at ddau fater arall:

Yn gyntaf, nid ydym yn gwybod beth sydd ar y gorwel. Mae'n bosibl y bydd amrywiolyn arall o COVID-19 yn codi sy'n achos pryder go iawn. Rwy'n ddiolchgar i'ch timau am gymryd rhan yn y gwaith a wnaed yn ddiweddar o ran cynllunio ar gyfer senario o ymchwydd mewn achosion. Mae'r cyfnod hwn yn y gwaith cynllunio bron wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, nid COVID-19 yn unig y mae angen inni fod yn barod i ymateb iddo, fel y gwelwyd yn ystod 2022 gyda brech M, er enghraifft. Felly hoffwn weld ail gyfnod o waith cynllunio ar gyfer ymchwydd mewn achosion, sy'n ystyried ein hymateb brechu o dan senarios eraill. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn yn nes ymlaen.

Yn ail, bydd rhai o'r prif uchelgeisiau a nodir yn [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru](#) – sef ein strategaeth ar gyfer gwasanaethau brechu'r dyfodol – a gyhoeddwyd fis Hydref 2022 yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2023. Rwy'n ddiolchgar i'ch timau am eu hymrwymiad parhaus a'u cyfraniad er mwyn gwireddu ein huchelgais i sicrhau bod brechiadau yn diogelu unigolion, ein cymunedau a'r boblogaeth.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n rhan o'r rhaglen frechu rhag COVID-19, a'r holl raglenni brechu eraill, am eu gwaith caled parhaus a'u hymrwymiad. Ni ellir gor-ddweud yr effaith y mae pob un ohonoch yn ei chael ar ddiogelu pobl Cymru. Diolch yn fawr.

Yn gywir,



Syr Frank Atherton
Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru